# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd:/ Councillor Caro Wild** **Plaid/ Party: Llafur/Labour**

**Ward: Glan yr Afon/ Riverside** **Etholwyd yn Gyntaf/First Elected 07/ 10 / 2015**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Ar ben fy rôl leol yng Nglan-yr-afon rwyf hefyd yn Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol. Mae'r portffolio'n cynnwys meysydd fel: priffyrdd, parcio, y Cynllun Datblygu Lleol, datblygu cynaliadwy, beicio a cherdded, materion traffig ac ati.

Fy rôl i yw sicrhau bod y swyddogaethau hyn o'r Cyngor yn gweithredu gystal ag y gallant er budd pawb yng Nghaerdydd. Fy nghyfrifoldeb i hefyd yw sicrhau bod yr uchelgeisiau a nodir ym maniffesto Llafur a'n dogfen 'Uchelgais Prifddinas' yn cael eu gwireddu.
Mae'r rôl yn cynnwys gweithio'n ddyddiol gyda swyddogion y cyngor, grwpiau cymunedol, partïon trydydd parti a'r llywodraeth.

Rwy'n rhan o Gabinet sy'n gyfrifol am redeg y Cyngor ac am gyfeiriad cyffredinol y Cyngor. Rwy'n ymateb i bryderon Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a Chynghorwyr lleol a godwyd gan aelodau'r cyhoedd ac yn ceisio sicrhau bod materion yn cael eu datrys. Fy nod yw rhannu camau a chynlluniau'r Cyngor gyda phoblogaeth ehangach Caerdydd trwy ddatganiadau i'r wasg, ymddangosiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol. Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â chydweithwyr rhanbarthol ar draws y Ddinas-ranbarth ac yn eistedd ar Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Dinas Caerdydd.

Rwy'n cael fy ngwneud yn atebol gan yr Arweinydd, y Swyddogaeth Craffu yn y Cyngor, a chan fy nghydweithwyr yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Rwy'n byw yn ward Glan-yr-afon ac yn ymateb i breswylwyr yn ddyddiol. Ynghyd â fy nau gydweithiwr yn y ward, Iona Gordon a Kanaya Singh rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cyflawni nifer o ddarnau o waith achos, yn bennaf yn ymwneud â materion fel tai, lleoedd ysgol, budd-daliadau a dyled, parcio, mynediad i'r anabl ac amryw faterion iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl).
- Cofnodi cwynion fel ceudyllau, diffyg casgliadau biniau, materion parciau ac ati.
- Delio â materion cynllunio lleol
- Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod materion lleol fel y strategaeth parcio, busnesau lleol, cyflymder ac ati.
- Cwrdd ag adrannau'r cyngor i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r ardal, fel sbwriel ac ailgylchu, amwynderau parciau, ysgolion a chyfleusterau cymunedol.
- Rydym wedi helpu i sefydlu a pharhau i gefnogi dau grŵp casglu sbwriel lleol.

Mae pobl yn gallu cael gafael arnom trwy'r dulliau canlynol:

- Mynychu ein cymorthfeydd cyngor
- Mynychu cyfarfoddd PACT
- Dros e-bost
- Dros y cyfryngau cymdeithasol
- Mewn digwyddiadau cyhoeddus
- Dros y ffôn
- Drwy ein stopio yn y strydoedd, siopau neu fannau cymunedol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Glan-yr-afon**

Rwy'n Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Kitchener ac rwy'n falch o sgorau rhagorol y mae'r ysgol yn parhau i'w cyflawni i blant yn yr ardal.

Fe wnes i helpu i sefydlu fforwm ieuenctid yng Nglan-yr-afon. Mae'r grŵp wedi llwyddo i sefydlu tîm pêl-droed ac wedi bwydo'n ôl i ni ar sut yr hoffent weld yr ardal yn cael ei gwella. Rydym yn parhau i weithio gyda hwy i wella'r cyfleusterau yng Nghanolfan Ieuenctid Warws Glan-yr-afon.

Rwy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol a swyddogion y cyngor i wneud gwelliannau uchelgeisiol i gyfleusterau chwaraeon / hamdden Caeau Llandaf a Gerddi Despenser.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r cyngor a gwahanol grwpiau cymunedol ar gynlluniau adfywio ar gyfer De Glan-yr-afon.

**Dinas Eang**

Yn fy rôl fel Aelod Cabinet, rwyf wedi cyflwyno cynigion polisi yn ddiweddar trwy'r 'Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân'. Mae'r cynigion yn ceisio ymdrin â sut rydym yn newid y ffordd yr ydym yn symud o amgylch y ddinas wrth i'r ddinas dyfu, ond maent hefyd yn ymdrin ag argyfwng iechyd cyhoeddus cynyddol o ran ansawdd aer.

Rwy'n aelod sefydledig o Ddinas Feicio Caerdydd ac yn falch o allu gwneud newidiadau mawr i feicio yn y ddinas, gan gynnwys cyflwyno'r cynllun llogi beiciau Nextbike.

**Y Cynghorydd Caro Wild**